# EDWARD DAVIES a'r llysiau llesol
# Rho i mi Fandragora i'w yfed...

ERS CYCHWYN gwareiddiad chwaraeodd planhigion ran bwysig ym mywyd dyn ac anifail. Nid yw'n bosib gwahaniaethu rhwng defnydd dyn o blanhigion fel bwyd a'u defnydd i bwrpas meddyginiaethol.

Un o'r llysiau hynotaf yn hanes planhigion meddyginiaethol yw mandragora. Mae'n perthyn yn agos i godwarth (atropa belladonna) ac mae'n aelod o'r un teulu â'r daten. Anodd credu fod y daten yn wreiddiol yn cael ei defnyddio fel cyffur.

Cynefin mandragora yw De Ewrop a chyffiniau'r Môr Canoldir; mae'n debyg iddo gyrraedd Prydain yn yr 11 ganrif, gan ei fod yn cael ei ragnodi gan y meddygon Eingl-Sacson. Cynhyrcha teulu Atropa alcaloidau, ac mae mandragora yn cynnwys atropin a hyoscin.

Deillia'r enw mandragora o Nam-ti-Ira, Duw pla'r Assyriaid 2000 C.C., trwy drosiad y llythrennau 'n' ac 'm'. O'r Groeg *plege*, sef trawiad, tarddodd pla, ac mae Duw pla yn cydgordio â'r syniad mai trawiad saethau y duwiau oedd achos afiechyd sydyn.

Datblygodd ein hynafiaid syniadau diddorol am ddefnydd gwahanol lysiau, ac yn ganolog i'w rhesymeg 'roedd Damcaniaeth yr Arwyddion. Er bod brodorion Gogledd Ewrop o'r ail a'r bedwaredd ganrif yn gyfarwydd â'r ddamcaniaeth, Paracelsus a osododd seiliau cadarn iddi ar ddechrau'r unfed ganrif a'r bymtheg.

Mae'r Ddamcaniaeth wedi ei sefydlu ar egwyddor syml, sef fod ffurf neu liw planhigyn yn datguddio'n eglur ei rinweddau; er enghraifft blodyn melyn dant y llew yn ei wneud yn addas i drin clefyd melyn, ac afiechydon coden y bustl, a ffurf calon deilen balm yn ei gwneud yn addas i drin anhwylderau'r galon.

* * * *

NID OES angen llawer o ddychymyg i weld tebygrwydd gwraidd mandragora i'r ffurf ddynol — mynnai'r llysieuwyr fod planhigion gwrywaidd a benywaidd, y cyntaf yn ddu a'r olaf yn wyn yn nhyb Dioscorides. Mor ddiweddar â 1648 ysgrifennodd John Parkinson fod gwrdragora a gwraigddragora!!

Oherwydd siâp dynol y gwraidd coleddid y syniad fod mandragora yn gallu cryfhau gallu rhywiol a ffrwythloni gwragedd amhlantadwy. Roedd yn rhan hanfodol o ddrwyth caru, ac ym marddoniaeth serch Caniadau Solomon darllenwn: 'Y mandragorau a roddasant arogledd, ac wrth ein drysau y mae pob rhyw odidog ffrwythau, newydd a hen, y rhai a rois i ti i gadw, fy anwylyd'.

Nid yw Shakespeare mor ramantus yn ei ddisgrifiad o Harri V, 'Mae'n drachwantus fel mwnci, a geilw'r puteiniaid ef mandragora'.

Mae hanes Laban yn twyllo Jacob cystal ag unrhyw gampwaith dychmygol modern. Cofiwn i Jacob lafurio saith mlynedd am law Rachel, ac yna'n ddiarwybod yn priodi Leah, gyda'r canlyniad iddo orfod llafurio am saith mlynedd ychwanegol i ennill llaw Rachel. Y trasiedi oedd fod Leah yn amhlantadwy, tra esgorodd Rachel ar bedwar o fechgyn.

Ond bu diwedd hapus; gweler 30 bennod o Lyfr Genesis, 'A Reuben hefyd a aeth yn nyddiau cynhaeaf gwenith, ac a gafodd fandragorau yn y maes ac a'u dug hwynt at Leah ei fam: yna Rahel a ddywedodd wrth Leah, Dyro, atolwg, i mi o fandragorau dy fab'. O ganlyniad aeth Leah a Rachel yn feichiog.

* * * *

NI ELLIR crwydro ymhell iawn i hanes meddygaeth cynnar heb sylweddoli fod swyn wedi chwarae rhan bwysig, ac mae i fandragora ei chwedloniaeth unigryw yn y cyswllt yma. Yn ôl y gred, anaml iawn y tyfai yn unlle ar wahân i fannau lle 'roedd crogbren ac arni ddrwg-weithredwr wedi ei grogi. Defnyddiodd Circe, duwies y gwrachod, fandragora i droi cyfeillion Odeyswys yn foch wedi iddynt lanio ar ynys y wawr, Aeaea.

Roedd angen cymryd gofal wrth gasglu llysieuyn mor nerthol er mwyn osgoi trychineb. Arferai pob cenedl ddefodau arbennig i gasglu llysiau; rhybuddiai'r Celtiaid rhag defnyddio haearn i dorri llysiau, a siarsid y casglwr i wisgo gwisg wen ac aros yn droednoeth.

Roedd mandragora yn sgrechian wrth i'r gwraidd gael ei dynnu o'r ddaear, ac os clywai'r casglwr y sgrech byddai farw. Oni ddywedodd Juliet yn ei thristwch, 'A sgrechian — fel pan rwyger mandragorau allan o'r pridd — a bair wallgofi'r byw'?

Dan yr amgylchiadau peth naturiol oedd clymu un pen i raff am wddf ci du a'r pen arall am y planhigyn, a chwythu corn wrth glust y ci. Wrth redeg ymaith yn ei fraw byddai'r ci yn dadwreiddio'r planhigyn ac ymhen ychydig amser, yn marw — nid yw'n syndod mai Mala canina oedd enw Rhufeinig mandragora.

Oherwydd fod cymaint o alw amdano yn yr 16 ganrif datblygodd diwydiant gwneuthur gwreiddiau mandragora artiffisial o wreiddiau grawn y perthi a gellhesg.

Un o'r cyhuddiadau yn erbyn Joan o Arc yn ystod ei phrawf oedd ei bod yn cario delw mandragora yn ei mynwes i geisio cyfoeth. Erbyn 1800 collodd mandragora ei le mewn triniaeth feddygol; bellach gorweddai ar silff y pentan yn y parlwr fel swynoglyn.

* * * *

CAMSYNIOL fyddai coleddu'r gred mai llysieuyn a chysylltiadau swynol yn unig oedd mandragora. Crybwyllwyd eisoes ei fod yn cynnwys alcaloidau, grŵp o gemegau sydd ag effaith nerthol ar y system nerfol. Maent yn gweithredu trwy dawelu yr ymennydd a'r nerfau. Opiwm, ffa'r moch a mandragora oedd yr anaesthetigion cynharaf.


Gwelir un o'r cyfeiriadau cynharaf at fandragora yn 70 O.C. yng ngwaith arwrol Pliny, *Naturalis Historia*, yn cynnwys 37 o lyfrau. 'Roed Pliny (Caius Plinius Secundus) yn gymeriad diddorol, bu'n gapten ym myddin Rhufain yn yr Almaen, yn gadlywydd y llynges yn y Môr Canoldir, a bu farw yng ngorlifiad mynydd llosg Vesuvius, ond nid ar achlysur dinistr Pompeii.

Ysgrifennodd Pliny, 'Mae'n beth cyffredin yfed sudd mandragora cyn torri, serio, pibo a ffleimio unrhyw aelod, i ddwyn ymaith unrhyw synnwyr a'r teimlad o'r fath driniaethau eithafol. Ac mae'n ddigonol i rai cyrff i'w rhoddi i gysgu wrth arogl o Fardrag, am gyfnod y fath lawdriniaeth'.

* * * *

Y DULL mwyaf poblogaidd o beri trwmgwsg yn y Canol Oesoedd oedd y spongia somnifera — y sbwng soporifig. Mae disgrifiadau ohono i'w gweld mewn llawysgrifau o'r 9fed ganrif, ac erbyn y 12fed ganrif roedd yn cynnwys opiwm, ffa'r moch, cegid, sudd morwydden, grawn letus, mandragora ac eiddew wedi eu mwydo mewn sbwng. Yna naill ai mewnanadlu o'r sbwng neu yfed ei gynnwys wedi ei fwydo mewn dŵr.

Mae rhai haneswyr meddygaeth yn barnu fod gan William Shakespeare gymaint o wybodaeth feddygol ag unrhyw M.D. yn ei oes. Er inni eisoes awgrymu ei fod yn gyfarwydd â'r ddamcaniaeth fod mandragora'n cryfhau gallu rhywiol, mae'n amlwg ei fod yn gwybod am ei



*Mandragora*

wir werth fel tawelydd. Oni ddywedodd Iago yn Othello, 'Ni all na phabi na mandragora, na holl driaglau melyn cysglyd y byd fy meddyginiaethu i i'r cwsg melys hwnnw'.

Ac yn absenoldeb ei hanwylyd gofynnodd Cleopatra i'w morwyn Charmian, 'Rho i mi fandragora i'w yfed,' ac mewn ateb i'r cestiwn, 'Pam, madam?' dywedodd, 'Fel y gallaf gysgu drwy'r agendor amser mawr yma'.

* * * *

NI ELLIR terfynu heb gyfeirio at blanhigyn sydd heb unrhyw berthynas llysieuegol â mandragora, ond ei fod yn cael ei alw'n fandragora Chineaidd.

Mae ginseng (Panax ginseng) yn cael ei gysylltu â mandragora oherwydd fod ei wraidd yntau yn debyg i ffurf dynol. O Rwsia y daeth ginseng yn wreiddiol, a bu mewn bri mawr yn China gydol y canrifoedd. Roedd cymaint o alw amdano ddechrau'r 18fed ganrif nes ei fod bron wedi ei ddifodi. Ond ni chymerodd lawer o amser i'r masnachwyr ddarganfod llysieuyn tebyg yng Nghanada a'i fewnforio fel ginseng!!

Mae llysieuwyr modern yn cyfeirio at grŵp o blanhigion fel 'adaptogens', sef planhigion sydd yn cynyddu gallu y corff i wrthsefyll ac ymateb yn hyblyg i bwysedd. I'r dosbarth hwn y perthyn ginseng, ac yn gemegol mae'n cynnwys mathau o sebonau a ginsenosidiau. Korea a Siberia yw prif gynhyrchwyr ginseng heddiw.

Un o'i brif rinweddau yw ei fod yn gallu dileu blinder drwy symbylu'r system nerfol. Dywedir ei fod yn gynhyrfwr nwydau; ai tybed am fod ei wraidd ar ffurf dynol?!

I'r dyn Gorllewinol modern atyniad pennaf gingseng yw rheolaeth ar bwysedd gwaed uchel a'r gallu i ostwng lefel cholestrol yn y gwaed.